Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Medi 2020

Annwyl gyfeillion

Torri'r rheol 21 diwrnod

Yn ein cyfarfod ar 24 Awst 2020 gwnaethom ystyried **Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**, a **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**. Nododd ein hadroddiadau dilynol fod yr holl offerynnau hyn a osodwyd wedi **torri'r rheol 21 diwrnod**.

Ysgrifennom atoch gyntaf ar 17 Mawrth 2020 mewn perthynas â thorri'r rheol 21 diwrnod, ac ar yr adeg honno bu 12 achos o'r fath ers diwedd mis Hydref 2019. Ers y llythyr hwnnw, bu 23 achos arall, fel y nodwyd yn y llythyr hwn ac yn ein llythyrau ar 1 Gorffennaf, 8 Gorffennaf a 4 Awst.

Rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau dilys dros dorri'r rheol ac rydym yn nodi bod y mwyafrif wedi digwydd wrth i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Fodd bynnag, hyd yn oed pan fu toriadau o'r fath yn gysylltiedig â choronafeirws, rydym wedi tynnu sylw at achosion lle bu'n aneglur pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau ddod i rym ar frys fel eu bod wedi torri'r rheol 21 diwrnod, er enghraifft yn ystod ein gwaith craffu ar Reoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Fel y nodwyd mewn gohebiaeth flaenorol, nid ydym am weld yr arfer o dorri'r rheol 21 diwrnod yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd.

Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac amgylchiadau torri'r rheol 21 diwrnod yn y dyfodol yn ystod y tymor sydd i ddod.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English